PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 48 Tachwedd 30, 2023 50c.

# Apêl am heddwch a chyfiawnder yn Gaza ac Israel

Llef a glywyd yn Rama,
Wylofain a galar dwys;
Rachel yn wylo am ei phlant,
Ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent mwy.

Darllenwyd y geiriau cyfarwydd hyn o Efengyl Mathew fel rhan o wasanaeth heddwch yn eglwys Soar, Penygroes, Arfon, un bore Sul ac yn wyneb erchyllterau rhyfel y Dwyrain Canol maen nhw'n diasbedain i lawr y canrifoedd. Ymateb cyffredin i'r digwyddiadau hyn yn Gaza yw teimlad o ddiymadferthedd – waeth beth fo'r dadleuon am achos y gyflafan ddiweddaraf.

Dydi deiseb yn newid dim mae'n debyg, ond mae'n ddatganiad o safbwynt, a siawns nad oes galw arnom fel eglwysi i wneud hynny. A phe bai ugeiniau o rai tebyg yn cyrraedd Aelodau Seneddol a hyd yn oed y llywodraeth byddai raid iddynt ymateb o leiaf. Gyda'r gobaith hefyd y bydd yn gwneud i bobl feddwl.

Cam cyntaf, a cham hanfodol, yw stopio'r bomio. Yr her sy'n wynebu arweinwyr gwledydd ym mhob man ar ôl hynny yw ceisio setliad sy'n diogelu hawliau yr Iddewon a'r Palestiniaid fel ei gilydd. Bu amser pan oedd lladd a thrais Gogledd Iwerddon yn ymddangos fel pe bai am barhau am byth heb obaith am gymod. Ond trwy ymdrechion caled a chyfaddawd daeth diwedd ar yr erchyllterau hynny.

Mae gobaith yn rhinwedd Cristnogol iach. Siawns na allwn geisio rhoi mynegiant i'r gobaith hwnnw ac wrth ei ddatgan helpu ei wneud yn realiti. Dyna'n gobaith ni yma yn Nyffryn Nantlle.

Ystyriwch chithau, yn eglwysi, gofalaethau a chyfundebau, drefnu deiseb eich hun er mwyn codi llais. Dyma eiriad y ddeiseb yn Gymraeg:

*Deiseb yn galw am heddwch ym Mhalesteina ac Israel*

Ar ran eglwysi ………… gresynwn fod cynifer o fywydau wedi eu colli ers Hydref 7, 2023 yn Israel/Palesteina.

Galwn am:
Gadoediad yn syth
Rhyddhau y gwystlon
Dod â'r blocâd i ben.

Cydnabyddwn fod holl ddinasyddion Israel/Palesteina yn gydradd. Galwn am gychwyn trafodaethau ar frys i lunio llwybr heddwch a chyfiawnder ar batrwm cyffelyb i'r broses gymodi yn Ne Affrica a Gogledd Iwerddon.



# Oedfa olaf Capel y Lôn, Slough




*Adeilad Burnham Methodist Church, ble bu aelodau Capel y Lôn, Slough'n addoli*

Ar brynhawn heulog braf, 22 Hydref 2023, cynhaliwyd gwasanaeth olaf Capel y Lôn, Slough. Oherwydd lleihad yn nifer yr aelodau ac anawsterau iechyd a theithio i'r gwasanaethau penderfynwyd dod a'r achos i ben.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Gwylfa Evans, fu'n ffyddlon gyda ni ers blynyddoedd bellach. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd gair gan y Parchg Rob Nicholls yntau wedi bod yn gefnogaeth i ni. Nid oedd y Parchg Anthony Williams yn gallu bod gyda ni, bu yntau'n gwasanaethu yng Nghapel y Lôn ers blynyddoedd lawer.

Ar ran yr eglwys cafwyd atgofion o'r holl amserau gan rai a fu'n rhan o fywyd yr eglwys: Eirwen Ebeneser fu'n aelod, diacon, trysorydd a hefyd yn organydd, oedd yn hanfodol i bob gwasanaeth, ac yn dilyn hynny cafwyd rhagor o atgofion gan Mair Jones trysorydd, ysgrifennydd a diacon yn ystod bron i hanner can mlynedd o fod yn aelod.

Derbyniwyd negeseuon gan gyn aelodau a fu'n ffyddlon iawn i'r achos cyn symud o'r ardal: Mrs Mairwen Joseph a'i diweddar ŵr, Tal Joseph, bu'r ddau'n ddiaconiaid, yn ysgrifennydd a thrysorydd o'r saithdegau nes symud o'r ardal i gartref newydd i fan oedd yn rhy bell oddi wrthym.

O'r aelodau presennol roedd dau yn 'blant' i rai o'r aelodau gwreiddiol: Mrs Marion Skuse, oedd â'i rheini'n hanu o Sir Aberteifi a Mr Aled Williams, ei rieni yntau'n athrawon o Gymru sef Windsor a Morwen Williams. Bu Morwen yn organydd yn y capel gwreiddiol ac yng Nghapel y Lôn am flynyddoedd.

Un arall o'n haelodau a ddaeth i'r oedfaon gyda'i thad ydy Mrs Mair Wintle, bu hithau'n ddiacon ac yn

*parhad ar dudalen 2*

# Oedfa olaf Capel y Lôn, Slough – *parhad*

organyddes yn ei thro. Ei swydd bwysig hi gyda ni'n ddiweddar fu gweithredu fel Ceidwad y Clo, hi oedd yn gwneud yn siŵr bod y drws ar agor ar gyfer ein gwasanaethau.

Daeth yr oedfa i ben wedi i Gwylfa ein harwain at fwrdd y Cymun ac yno ddatgorffori'r achos yn swyddogol drwy ganu'r emyn 'Dan dy fendith wrth ymadael'.

Roeddem yn falch o gael cefnogaeth aelodau o Harrow ac er y tristwch roedd yn dda cael cymdeithas gyda'n gilydd o gwmpas y byrddau'n llawn teisennau a phaneidiau cyn ymadael.

Diolch i bawb a gefnogodd dros y blynyddoedd, yn enwedig y rhai o Gymru oedd yn barod i dreulio prynhawn gyda ni. Diolch i bawb.

*Mair Jones*

# *Y Cwmni Bach*, podlediad yr Undeb: mae'r sgwrs yn parhau




Ar bodlediad *Y Cwmni Bach* ym mis Tachwedd mae Dewi Myrddin Hughes yn rhannu ychydig o hanes ei fywyd a'r dylanwadau fu arno. Treuliodd Dewi ei fywyd gwaith yn y weinidogaeth, bu hefyd yn Ysgrifennydd Cyffredinol gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar gyfnod pan fu tipyn o newid, gan gynnwys trafodaethau brwd ar draws yr enwadau am ymuno. Y mae gan Dewi bethau hynod ddiddorol i'w rhannu, fel y gallech ddisgwyl.

## Podlediad misol

Y mae cyfres o bodlediadau misol yr Annibynwyr, *Y Cwmni Bach* bellach wedi bod yn mynd ers dros flwyddyn, mae'n rhan o genhadaeth ddigidol MSP4 yr Undeb a noddir gan CWM.

Mae'r podlediadau ar gael i'w gwylio ar y we neu i wrando arnynt. Sgyrsiau hamddenol a hwyliog ydynt gydag amrywiol bobl o bob cwr o Gymru am eu bywydau, eu profiadau, am eu ffydd, ac am bob mathau o bethau eraill hefyd. Does dim un o'r penodau yr un peth ac mae pob un yn werth eu clywed neu eu gwylio. Mae'r podlediadau yn ffordd i ni rannu ein straeon gyda'n gilydd, i drafod y pethau sy'n bwysig i ni heddiw. Ac wrth gwrs, mi fedrwch chi barhau â'r sgwrs ymhlith eich gilydd.

## Gwyliwch neu gwrandewch

Mae modd i chi wylio pob un o'r penodau blaenorol hefyd sy'n cynnwys pob math o sgyrsiau difyr, gan gynnwys pobl fel Geraint Rees, Efailisaf, sef trysorydd newydd Undeb yr Annibynwyr, Arfon Jones fu'n gweithio mor ddygn ar beibl.net, Nel Richards, sydd â'i bryd ar fod yn newyddiadurwraig amgylcheddol, Rhun Dafydd, cadeirydd Cymdeithas y Cymod, Jeff Williams sy'n Llywydd yr Undeb a Laura Karadog, athrawes ioga a Chrynwraig.

Mae modd gwylio pob un o'r penodau blaenorol eto. Ewch i chwilio i weld pwy sy'n denu'ch sylw chi. Mae'r podlediadau i'w cael ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, i'w gwylio yn ogystal ag i wrando arnynt. Maent ar gael ar gyfryngau Spotify, Apple ac YouTube hefyd.

## Gwestai Nadolig arbennig

Bydd gennym westai arbennig ar gyfer rhifyn mis Rhagfyr, ond mwy am hynny maes o law. Yn y cyfamser, mwynhewch ymuno yn y sgwrs gyda'r *Cwmni Bach*.

# Chwe firws cyfoes

Yn ddiweddar cyhoeddwyd rhestr o chwe firws sydd yn ymosod yn benodol ar galedwedd a meddalwedd eglwysig. Dyma nhw:

## BETAMAX

O dan effaith y firws hwn fe dry crefydd yn fater o edrych yn ôl i'r *good ol' days*. Arwydd cyntaf y firws yw'r tuedd i gorganu geiriau David Davies: 'Ofni'r ydym, Dduw ein tadau/Mai rhy rwydd ein llwybr ni ...'

## BOB THE BUILDING

Ymlaen i'r nesa, BOB THE BUILDING. Mae'r firws hwn yn argyhoeddi pobl mai diogelu capel yw nod y bywyd crefyddol. Pe bai sôn am gau capel, hyd yn oed pan fo pob ystyriaeth resymol yn galw am hynny, ceir cyhuddiadau o amharchu'r hen ffyddloniaid a fu'n ei gynnal ers llawer dydd.

## JAFFA

JAFFA yw'r firws nesa. Firws yn peri i ambell eglwys feddwl ei bod hi ychydig yn well nag eglwysi eraill – yn gacen ymhlith y bisgedi cyffredin.

## DERRIÈRE

A dyma DERRIÈRE wedyn: fe beri'r firws hwn i ni feddwl mai'r grefydd sy'n tynnu'r dorf yw'r unig grefydd effeithiol.


## LORDLUCAN

Yr olaf ond un yw'r LORDLUCAN. O dan effaith y firws hwn mae pobl yn diflannu pan mae 'na waith i'w wneud neu pan gwyd problem i'w datrys.

## DEUDEICHDEUD

Ar ddiwedd y rhestr mae DEUDEICHDEUD. Firws sy'n ymosod yn benodol ar weinidogion yw hwn – gall effeithiau'r firws beryglu ei yrfa/gyrfa sef, wedi blynyddoedd weithiau o frathu tafod a llyncu balchder, fe ddywed y gweinidog, go iawn, ei f(m)eddwl am rywbeth, neu rywun.

Dylid nodi un firws bach arall – firws sy'n targedu Cymry Cymraeg yn benodol sef y firws O!-SOOO-HEN-FFASIWN. Dychmygwch yr olygfa, mewn tŷ yn llawn o *period features* – mae'r tai newydd yma mor ddigymeriad onid ydynt? – gan eistedd ar gadeiriau tad-cu,



wrth hen fwrdd derw o'r siop hen bethau, dyma seld Wncwl Dai yn llawn o hen lestri; a sampler Modryb Sal ar y wal; dros baned, fe gyfyd sgwrs rhwng gweinidog a chyfaill iddo sydd yn ystyried ei hun yn Gymro ôl-grefyddol, am werth crefydd a chapel – 'O! Na, na ...' meddai'r cyfaill hwnnw. 'Dyw e ddim i fi, mae capel yn soooo hen ffasiwn!'

**Owain Llŷr Evans**

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 30 2023 RHIF 144




**“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd” Luc 2:14**

Ers canrifoedd mae pererindotwyr wedi teithio tua Ynys Enlli yn eu miloedd wedi eu denu gan y sicrwydd o harddwch cread Duw yn ymestyn o’r mynyddoedd i’r arfordir a chyrraedd man o heddwch. Mae’r llwybr heddiw wedi ei fapio a’i farcio ac yn eich arwain drwy goedwigoedd, dros afonydd, i fyny mynyddoedd ac ar hyd llwybrau arfordirol a phob amser yn arwain i mewn i bentrefi ac eglwysi. Mae’r traddodiad yn parhau hyd heddiw gyda pererindotwyr yn cerdded y llwybr fel modd i ail-gysylltu â’u ffydd, ail-gysylltu â natur ac mae cerdded ei hun yn falm i’r corff a’r enaid fel gweithred o feddwlgarwch. Mae’n gyfle i bwyllo, i weld y llun ehangach wrth adael prysurdeb bywyd a chanolbwyntio ar bob cam wrth fynd ar hyd y llwybr.

Cysylltu gyda’r heddwch yma ysgogodd y Parch Nan Wyn Powell-Davies, Cadeirydd, a’r Parch Andrew Sully, Pennaeth Dros dro y mudiad yng Nghymru, i drefnu i gerdded rhan o’r llwybr o Fangor i Aberdaron er budd gwaith Cymorth Cristnogol mewn cymunedau bregus o dlodi a rhyfel dros y byd.

“Dwi’n edrych ymlaen at y cyfle i gerdded a gweddïo dros heddwch yn nhymor yr Adfent pan rydyn ni’n paratoi at ddathlu geni Iesu, Tywysog Tangnefedd,” meddai Andrew wrth feddwl am y daith.

Dyma Nan yn rhannu am ei chymhelliad hithau ar gyfer y daith:

“Dw i’n edrych ymlaen yn fawr i gael y cyfle arbennig yma dros gyfnod yr Adfent i bererindota ar lwybr y pererinion.

“Mae sefyllfa rhyfeloedd ein byd, yn enwedig yn Gaza ar hyn o bryd, yn ein dychryn ni i gyd. Yn ystod y daith, fe ddaw cyfle i ni ymuno gyda chymunedau, eglwysi ac unigolion i ganu carolau ac i ryfeddu o’r newydd at gysur yr angylion ar y Nadolig cyntaf i’r bugeiliaid: ‘Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.’ Mae’r addewid byw yma yn gysur i ninnau i gyd eleni hefyd. Codwn lais felly yn erbyn anghyfiawnderau’r rhai gwannaf yn ein byd, a rhyfeddwn wrth gael ein cymell ninnau bob un i ymlwybro dros y Nadolig i’r llety llwm ym Methlehem.”

Yn oes y pererindotwyr cynharaf roedd croeso a man cynnes yn eu disgwyl mewn pentrefi ac eglwysi ar hyd y ffordd. Felly hefyd gyda’r daith noddedig hon, gyda’r nod o gyrraedd nifer o bentrefi a chael cyfarfod â nifer mwy o gefnogwyr Cymorth Cristnogol dros y chwe diwrnod o’r 4ydd hyd at 9fed Rhagfyr 2023. Mae trefniadau yn eu lle i gynnal Boreau Coffi neu Fyfyrdod Carolau bob dydd. Os ydych chi’n lleol i un o’r digwyddiadau yn y rhaglen, yna mae croeso mawr i chi alw heibio i ddymuno’n dda i’r ddau ar eu taith.

Ar wahân i gasgliadau o ddydd i ddydd, mae modd noddi Nan ac Andrew ar lein drwy ymweld â’r dudalen JustGiving fydd yn cael ei rhannu gan Gymorth Cristnogol ar y cyfryngau cymdeithasol.

Felly ymunwch gyda ni i oleuo’r daith y Nadolig hwn i’n brodyr a’n chwiorydd ar draws y byd a chynnal y gobaith am heddwch a chyfiawnder i bawb.

| Dyddiad | Cychwyn | Cyfarfodydd | Cyfarfodydd Nos a Phnawn Olaf y Daith |
|---|---|---|---|
| 4/12/23 | 9.00 Cadeirlan Bangor<br>Ffarwelio a dymuno'n dda i'r cerddwyr | 10.30/11.00 Bore Coffi<br>Capel Jerusalem, Bethesda | Myfyrdod Carolau<br>Eglwys Sant Padarn<br>Llanberis (yr amser i'w drefnu) |
| 5/12/23 | 9.00 Gadael Llanberis | 10.30/11.00 Waunfawr | Myfyrdodau Carolau am 5 o'r gloch<br>Capel y Groes<br>Pen-y-groes |
| 6/12/23 | 8.00 Gadael Pen-y-groes | 12/12.30 cyrraedd<br>Eglwys Clynnog Fawr | Myfyrdod Carolau<br>i'w drefnu yn Nefyn |
| 7/12/23 | 9.00 Gadael Nefyn | 1.00 Bore Coffi<br>Capel MC Tudweiliog | Myfyrdod Carolau am 7 o'r gloch<br>Eglwys Maesyneuadd<br>Trefor |
| 8/12/23 | 9.00 Gadael Tudweiliog | | Myfyrdod Carolau<br>Eglwys Sant Hywyn<br>Aberdaron (yr amser i'w drefnu) |
| 9/12/23 | **Diwrnod Ymgynnull COP28 yn Pontio Bangor**<br>Diwrnod i godi llais dros anghyfiawnder hinsawdd | | 1.30 gweithdy gwneud placardiau<br>2.30 cerdded at y cloc ym Mangor<br>3.30 siaradwyr ifanc ar anghyfiawnder hinsawdd nôl yn Pontio |

## Adnoddau Nadolig Cymorth Cristnogol

Mae pob merch yn haeddu'r cyfle i godi allan o dlodi, ac yn Bangladesh mae merched ifanc yn goleuo'r daith i eraill yn eu cymunedau.

Ardal Kurigram yng ngogledd Bangladesh yw un o'r ardaloedd tlotaf yn y wlad ac mae hefyd yn dioddef llifogydd difrifol. Mae bywyd yma'n heriol iawn, ac mae'r cyfleoedd i ferched hyd yn oed yn fwy heriol.

Wrth edrych yn ôl mae Kakoli Khatun, 21 oed, o Kurigram yn cofio: 'Doedd gen i ddim breuddwydion ychydig flynyddoedd yn ôl. Er mwyn gwneud unrhyw beth roedd yn rhaid i mi ofyn am arian gan fy nhad a'm brodyr.'

Heddiw, mae Kakoli yn rhannu ei hamser rhwng rhedeg busnes llewyrchus ac astudio ar gyfer ei gradd yn y coleg.


Mae Kakoli wedi dod o hyd i gymuned o ferched eithriadol o ddawnus – crefftwyr ac entrepreneuriaid – sydd wedi sefydlu busnes i werthu eu cynnyrch hardd ar lein. Mae'r merched yma wedi trawsnewid eu cymuned.

Gall eich rhoddion dros y Nadolig helpu merched fel Kakoli i lunio'u dyfodol disglair.

Mae'r ddolen isod yn cynnwys adnoddau Saesneg i'ch helpu i oleuo'r ffordd i eraill y Nadolig hwn. Bydd adnoddau Cymraeg ar gael yn fuan:
Christmas Appeal 2023 | Christian Aid

**Llinos Roberts**
Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymru
caid.org.uk | 01248 719124 | 07778 109460 |
lroberts@christian-aid.org

## Sul Cyntaf yr Adfent – 3 Rhagfyr




Sanctaidd a bendigaid Drindod, fflam ein bywydau a goleuni yn ein tywyllwch, bydd gyda ni ar y daith o'n blaenau bob cam i'r preseb. Crëwr y sêr uwchben, arwain ni gyda'n calonnau'n agored i groesawu mab Mair.

Wrth gofio'r Geni yng nghanol y tlawd a'r difreintiedig, gad i ni gofio'r merched cryf a chreadigol yn Bangladesh wrth iddyn nhw arloesi a dyfalbarhau er mwyn trawsnewid eu bywydau a bywydau eu teuluoedd.

Wrth benlinio gyda'r bugeiliaid yng ngoleuni'r côr angylaidd, gad i ninnau lawenhau yn y Newyddion Da, a dathlu bod ein Duw yn dyrchafu'r gorthrymedig ac yn dymchwel grymoedd y ddaear.

Wrth ymuno â'r doethion ar eu pererindod, gad i ninnau dod â rhoddion at y preseb, fel y gallwn gydsefyll â merched y byd wrth iddynt gydweithio er eu lles eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Wrth i'r ddaear ddal ei gwynt ar drothwy'r greadigaeth newydd, trwy ras y Forwyn Fair, rhown diolch am ras a chariad merched Bangladesh wrth iddynt ymdrechu i greu dyfodol gwell.

Cofiwn fod ffydd, gobaith a chariad yn cael eu cynnig i ni yn stori'r Geni, a rhoddwn ddiolch o hyd ein bod yn cael ein galw i chwarae ein rhan ni yn y stori hon. Amen.


*Parch. Sara Roberts*
*Bethesda*

# *Gair Duw ar Waith*

## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

**Pennod 10**
**Lobïo dros heddwch**
**Genesis 26: 12–22 | 3 Rhagfyr**




#### Gweddi

Arglwydd, gwyddost am ein gofidiau wrth inni glywed rhethreg y gwleidyddion yn sôn am lywodraeth Gogledd Korea yn profi eu harfau yn groes i ganllawiau'r Cenhedloedd Unedig. Helpa ni i feddwl am yr hyn y gallwn ei wneud dros heddwch byd. Amen.

#### Darlleniad: Genesis 26: 12–22

#### Cyflwyniad

Bydd Iddewiaeth yn gyson yn cyfeirio at Dduw fel 'Duw Abraham, Isaac a Jacob', a hynny fel modd o gofio bod y genedl wedi ymddiried yn Nuw ers y cyfnod cynharaf un. Cyfeirir at Abraham, Isaac a Jacob fel y patriarchiaid, a bod eu ffydd hwy yn Nuw yn esiampl gyson. Mae'r darlleniad heddiw yn enghraifft o ffordd Isaac o ymwrthod â rhyfel mewn ffordd ddi-drais ond yn ennill heddwch yn y tymor hir.

Prin bod Iddewiaeth wedi dilyn meddylfryd Isaac, a chyfiawnhawyd grym militaraidd fel ffordd gyfiawn yn eu golwg. Mae heddychwyr ymhlith lleiafrif yr eglwys Gristnogol, ond prin bod perthyn i leiafrif yn gwneud eu daliadau yn llai dilys na daliadau unrhyw un arall. Ceir digon o gyfeiriadau at ryfel yn yr Hen Destament, ac mae hanes y genedl yn hynod waedlyd. Hyd ein cyfnod ni, gwelodd yr Iddewon lawer o dywallt gwaed ac erledigaeth yn eu hanes.

#### Myfyrdod

Nodwyd mewn pennod flaenorol fod yr eglwys yn ystyried dadlau dros heddwch fel rhan o'i chenhadaeth. Dyfynnir yn aml eiriau Martin Niemöller (1892–1984), gweinidog Lutheraidd yn yr Almaen a gefnogai Hitler yn wreiddiol ac na safodd dros y sosialwyr a'r Iddewon pan oeddent yn cael eu herlid. Pan ddaeth y fyddin ar ei ôl ef, sylweddolodd ei gamgymeriad pan nad oedd unrhyw un ar ôl i sefyll drosto ef. Prin y byddai Martin Luther King am ddadlau dros fod yn dawedog, ond galwodd ar yr eglwys i godi llais dros werthoedd heddwch a hyrwyddo'r agwedd ddi-drais wrth wneud hynny.

Nid pawb sy'n medru mynd ar ymgyrchoedd neu brotestiadau, ond gall pawb dorri ei enw ar ddeiseb, neu anfon gair at Aelod Seneddol a siarad dros ymatal rhag meddylfryd militaraidd. Yng nghyd-destun y rhyfeloedd cyfredol ar diroedd Wcráin a Gaza, bydd y mwyafrif helaeth o'n plith yn teimlo'n gwbl ddiymadferth, ond byddai anfon llythyr at y Prif Weinidog yn Rhif 10 Stryd Downing yn un ffordd o ychwanegu at y llais dros heddwch. Pan fydd pobl yn lobïo gydag argyhoeddiad, a bod llawer yn gwneud hynny, yna bydd gwladweinwyr democrataidd yn cymryd sylw. Mae un llythyr yn bwysig, ond 'pan dry yr un yn gannoedd ac yn filoedd …'

Gŵyr Siapan yn iawn beth ddigwyddodd yn Hiroshima a Nagasaki, a gallai'r byd heddiw weld sefyllfa llawer gwaeth, oni bai fod ewyllys byd yn hawlio hedd.

#### Gweddi

Drugarog Dad, gweddïwn am heddwch ledled byd ac yn arbennig am weld ymatal rhag cynnydd yn rhethreg gwleidyddion. Amen.

#### Cwestiynau i'w hystyried

1 Beth yw'r gwahaniaeth rhwng perthynas Isaac o Dduw Israel a phrofiad Dafydd ohono?
2. A yw Duw yn addasu ei hun i amgylchiadau pobl, neu a yw pobl yn addasu eu hunain i bresenoldeb Duw?
3. A yw'n haws moli Duw mewn cyfnod o lawnder a llwyddiant nag ar adegau mwyaf stormus bywyd?
4. A fydd eich eglwys yn lobïo dros heddwch heddiw?
5. Beth ddylai blaenoriaethau'r Arglwydd Cameron, yr Ysgrifennydd Tramor newydd, fod wrth gyfarfod â swyddogion cyfatebol gwledydd arfog y byd?

---

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 3 Rhagfyr**
**Dim rhaglen**

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 3 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r cerddor Eric Jones

**Sul, 3 Rhagfyr, am 12yp**
Oedfa dan arweiniad Peter Thomas, Aberystwyth

---

## Ganwyd Crist!

**Dewch i weld dros ddau gant o bresebau o Brydain a thros y byd. Fe'u casglwyd gan Nia a Garth Higginbotham dros y blynyddoedd. Mae yna rai bach a mawr, traddodiadol a modern o bob cyfandir.**

**Dydd Sul, 3 Rhagfyr, 2 tan 6 o'r gloch**
**36, Abbey Road, Llandudno**

Darperir mins peis a gwin sbeislyd

Casgliad ar gyfer Cymorth Cristnogol, elusen sy'n gweithio dros gyfiawnder, heddwch a gobaith i'r rhai mewn tlodi a rhyfel.



I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Cyngor yr Undeb: Yr Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang

Yn ystod mis Hydref cyfarfu adrannau unigol Cyngor Undeb yr Annibynwyr yn rhithiol wythnos cyn cynnal cyfarfod llawn o'r Cyngor yn Aberystwyth i drafod agendâu'r adrannau yn helaethach fel Cyngor cyflawn.

Dyma grynodeb o gofnodion o'r **Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang**, a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 12 Hydref o dan gadeiryddiaeth Jill-Hailey Harries.

Cyflwynodd amryw o gynrychiolwyr eu hymddiheuriadau am eu habsenoldeb ac o ganlyniad cyfarfod gwan iawn, o ran nifer, a gafwyd. Eto, bu'r drafodaeth yn un ddigon brwd a buddiol.

### Y Genhadaeth Ddigidol

Cafwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd Cyffredinol ar weithgaredd y rhaglen a braf oedd gwybod am y gwerthfawrogiad sydd i'r podlediadau, *Y Cwmni Bach*. Nodwyd mai'r cam nesaf fyddai sefydlu gwedd gerddorol y rhaglen. Y bwriad yw gofyn i dair dawnus iawn ym myd cerdd, Sian Meinir, Mererid Mair a Sioned Page Jones, i ffurfio panel i drafod beth yw'r posibiliadau, gan feddwl am adnodd defnyddiol i'r eglwysi ac yn gyfrwng i hyrwyddo'u cenhadaeth.



*Mererid Mair aelod o'r Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang*

### Cynllun Onesimus CWM

Trafodwyd un agwedd arbennig o'r rhaglen hon y gallasai'r Undeb fod yn ymwneud â hi, o bosibl, sef Caethwasiaeth Fodern, rhywbeth nad yw byth ymhell iawn oddi wrthym. Tynnwyd sylw at yr angen i godi ymwybyddiaeth o hyn ymhlith ein haelodau a chan i fater Masnach Deg godi hefyd gwelwyd cyfle i gyfuno'r ddeubeth. Cynigiodd Jeff Williams i edrych i mewn i'r mater ymhellach.

### Materion Hanes

Bydd *Y Cofiadur* yn dod allan cyn bo hir. Dwy erthygl gan y Gymdeithas Hanes fydd yn y rhifyn hwn. Un am Richard Price gan yr Athro Gareth Ffowc Roberts a'r llall gan Catrin Stevens ar y ddeiseb heddwch aeth gan fenywod Cymru i fenywod America ar gyfer heddwch.

### Cynllun Denman

Yn dilyn penderfyniad cyfarfod blaenorol o'r adran i ofyn i ysgolion Sul greu cyflwyniad fideo byr ar y pum pwynt cenhadol, y thema eleni am 2024 fydd 'Dysgu am Iesu', gyda'r manylion i'w gwneud yn hysbys cyn diwedd y flwyddyn.

### CWM Ewrop

Cafwyd adroddiad gan y cadeirydd, Jill-Hailey i ymweliad tri o'n plith â Fforwm Rhanbarthol Ewrop gynhaliwyd yn Amsterdam yn y gwanwyn. Uchafbwynt y gynhadledd oedd ymweliad â chymuned ffydd a blannwyd mewn ardal ddifreintiedig o'r ddinas a gweld grym a gallu'r Efengyl yn cael ei amlygu yn ymrwymiad cwmni o ganlynwyr digon gwan a bregus, ond eto'n llawn cariad a gwasanaeth. Roedd hi'n hyfryd dod i adnabod Dr Graham McGeoch pennaeth y rhanbarth. Cafwyd cyfle i adrodd am weithgaredd yr Undeb a dangoswyd cryn ddiddordeb yn yr ymgyrch Eglwysi Dementia-Gyfeillgar

### CWM Byd-eang

Bu Jill-Hailey, aelod o fwrdd CWM a Dylan Rhys ein cynrychiolydd yng nghyfarfodydd blynyddol CWM ar ymweliad â Taiwan ddechrau'r haf a chafwyd ganddynt adroddiad o'u hymweliad. Gwelwyd bod y problemau sy'n wynebu'r eglwysi yn lled gyffredin ar draws teulu CWM, gyda llawer ohonynt yn adrodd am ostyngiad yn eu haelodaeth. At hyn, soniwyd am faterion fel caethwasanaeth, argyfwng hinsawdd, tlodi a hiliaeth. Cawn ein hatgoffa yn hyn o beth am ehangder y genhadaeth Gristnogol a gallu'r Efengyl i gyfarfod â'r ddynoliaeth, a'r greadigaeth wir, yn ei holl angen.

### Penderfyniad y Cyfarfodydd Blynyddol ar Genhadaeth

Wedi trafodaeth daethpwyd i'r casgliad mai mantais fawr i'r eglwysi fyddai cael cyfle i weddïo dros ei gilydd, i rannu â'i gilydd eu hymarferion da a chael llwyfan diogel i ystyried eu llwyddiannau a'u methiannau yng nghwmni ei gilydd.

**Dyfrig Rees**

# Neges Fawr y Proffwyd Bach

Fel meidrolion rydym yn rhwym o fynd trwy gyfnodau anodd. Cyfnodau o dristwch a cholled, salwch ac iselder, rhwystredigaeth a siomedigaeth. Fel Cristnogion gallwn deimlo fel methiant yn ein bywydau personol ac ysbrydol gan ein bod yn syrthio yn aml i demtasiynau ac yn methu a bod yn debyg i Iesu. Dro arall mae gwendidau mawr yr eglwys a chyflwr dychrynllyd dynoliaeth yn ein digalonni ac mae'n anodd dyfalbarhau.

### Neges galonogol

Er mwyn dy annog i ddal ati'n hyderus, hoffwn dynnu dy sylw at baragraff clo llyfr y Proffwyd Habacuc. Yma mae geiriau bendigedig a neges bwysig inni fel Cristnogion yn y cyfnod arbennig hwn.

17 Er nad yw'r ffigysbren yn blodeuo,
ac er nad yw'r gwinwydd yn dwyn ffrwyth;
er i'r cynhaeaf olew ballu,
ac er nad yw'r meysydd yn rhoi bwyd;
er i'r praidd ddarfod o'r gorlan,
ac er nad oes gwartheg yn y beudai;
18 **eto** llawenychaf yn yr ARGLWYDD,
a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.
19 Yr ARGLWYDD Dduw yw fy nerth;
gwna fy nhraed yn ysgafn fel ewig,
a phâr imi rodio uchelfannau.

Habacuc 3 BCND




Yma, mae'r proffwyd yn disgrifio cyfnod anodd lle nad yw'r cnydau yn dwyn ffrwyth ac y mae'r rhagolygon yn dywyll. Y mae aflwyddiant i'w weld yn glir ym mhob man. Ond yna yn adnod 18 fe ddywed '**eto** llawenychaf yn yr ARGLWYDD, a llawenhaf yn Nuw fy iachawdwriaeth.'

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Barn Annibynnol

## Mae gaeaf yn dyfod

Mae'n aeaf, yn swyddogol, mae'r tywydd wedi bod yn dweud hynny wrthym ni ers tro. Nawr, dwi'n gwybod nad oes dim yn well gennym ni na thrafod y tywydd, ond wir y mae'r tywydd gwallgo sy'n digwydd yn ddiweddar yn ddigon i hala rhywun yn benwanwalics.



### Tywydd eithafol

Ond wrth gwrs, i fod ychydig bach o ddifri, fe wyddom ni mai arwydd yw tywydd eithafol a phegynol o'r ffaith fod effaith tŷ gwydr yn damweinio'r byd, a bod tywydd llawer, llawer gwaeth yn digwydd mewn rhannau eraill o'r byd. Llifogydd, sychdwr, tanau gwyllt, daeargrynfeydd, llosgfynyddoedd, pob math o bethau sy'n arwydd nad yw'r byd mewn lle da, bod y ddaear yn cynhesu ac mai bai dynol ryw yw hynny. Mae'n argyfwng.

### Beth fedrwn ni ei wneud?

Yn wyneb y math anferth hwn o sefyllfa, mae'n hawdd iawn i ni fel unigolion, fel cymunedau, fel gwledydd i anobeithio (fe wyddom mai'r gwledydd cyfoethocaf sy'n gwneud y niwed mwyaf, ac yn creu'r llygredd gwaethaf sy'n achosi cynhesu byd-eang). A phob nawr ac yn y man, cawn ein hannog i 'wneud y pethau bychain' chwedl Dewi Sant – a dweud y gwir, wy'n meddwl y byddai'r hen Ddewi wedi bod yn ailgylchwr tan gamp ac yn foi hynod o wyrdd, yn byw'n ysgafndroed ar yr hen blaned hon – bod pob dim, waeth pa mor fach, yn cyfri. Ac mae hynny'n wir wrth gwrs, mae'n rhaid i ni gymryd cyfrifoldeb dros ein gweithredoedd unigol ni ein hunain a meddwl am beidio ag afradu adnoddau a bod yn ddibris, achos ma pen draw ar bopeth, a sdim iws byw fel tase hynny ddim yn wir.

### Grym y farchnad

Ar hyn o bryd mae'r byd yn rhy wasaidd i'r farchnad global a llond llaw o gwmnïau mawrion, ac felly elw a dim arall sy'n eu becso nhw. Neoryddfrydiaeth yw pob dim. Cynnydd a mwy o elw fyth. Sdim digon i gael, fel bydde'n mamau ni'n ei ddweud ... hyd nes y bydd hi'n rhy hwyr, sbo. Ond go iawn, fe wyddom mai llywodraethau'r blaned sy'n medru newid pethau, hyd yn oed oes yw hynny'n digwydd yn araf bach. Petaem nhw'n deddfwriaethu er lles y blaned, wel *dyna* fyddai'r elw mwyaf erioed.

### Pleidleisiwch!

Ac o'ch rhan chi a fi, dim ond un ffordd allwn ni newid pethau, a fydd hynny ddim yn digwydd dros nos chwaith, a hynny yw drwy bleidleisio, pleidleisio dros bleidiau sy'n becso am fwy na jyst nhw eu hunain, eu ffrindiau, ac am arian. Y pleidiau sy'n credu mewn cymdeithas, y rhai sy'n credu mewn gwella'n hamgylchedd, nid yn unig ar lefel leol ond yn fyd-eang. Y rhai sy'n credu mewn dyfodol go iawn, i bawb. Sdim byd fel cael uchelgais oes e? Achos o godi'r isaf yn ein cymdeithas, fe fyddwn ni ar ein helw hefyd (yn ariannol ac mewn ffyrdd eraill). Ac o feddwl am ein byd mewn ffordd garedicach a mwy hirdymor na dim ond sut i wneud elw heddiw, falle y gwelwn ni fory fydd yn werth ei fyw.

Os nad yw hynny'n rheswm dros fod yn obeithiol, wn i ddim beth sydd. Rhaid i ni beidio ag anobeithio, byth. Daliwn ati!

**Elinor Wyn Reynolds**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Neges Fawr y Proffwyd Bach – *parhad*

### Eto

Er y methiant a'r aflwyddiant y mae yn parhau i lawenhau yn yr Arglwydd. Gair bach trawiadol yw'r gair **eto** yn adnod 18 sy'n newid naws y neges ac yn ei throi i fod yn gadarnhaol. Er y tryblith oedd yn ei fywyd, eto roedd llawenhau yn Nuw. Ceir yr un ergyd gan Job lle dywedir, 'Pe lladdai Efe fi, **eto** mi a obeithiaf ynddo Ef.' Job 13: 15

A'r un modd yn hanes y tri gŵr a daflwyd i'r ffwrnais dân yn Llyfr Daniel, wrth gyfarch y brenin.

'Os ydy'r Duw dyn ni'n ei addoli yn bodoli, bydd e'n gallu'n hachub ni o'r ffwrnais dân ac o'ch gafael chi, o frenin. [18] Ond hyd yn oed os ydy e ddim yn gwneud hynny, sdim gwahaniaeth. Does gynnon ni ddim bwriad addoli eich duwiau chi, na'r ddelw aur dych chi wedi'i chodi.' Daniel 3: 17 beibl.net

### Ydwyf yr hyn Ydwyf

Roedd Habacuc yn addoli Duw nid oherwydd unrhyw fanteision neu fendithion yr oedd yn eu derbyn ond oherwydd mai Duw ydoedd. A dyna beth mae Duw yn ei haeddu. Haedda ein mawl, ein teyrngarwch doed a ddelo. Nid ydym yn addoli Duw er mwyn inni gael bywyd rhwydd, bwyd ar ein byrddau neu iechyd. Rydym yn addoli Duw oherwydd mai ef yw'r Tad nefol sydd wedi ein creu, sydd yn ein cynnal ac yn ein hachub trwy wyrth a rhyfeddod gwaith Iesu trwy ei fywyd perffaith ei farwolaeth aberthol ar y groes a'i atgyfodiad. Dyma yw ffydd, ymddiried yn Nuw beth bynnag sy'n digwydd. Fel y dangosodd Iesu yng ngardd Gethsemane, pan ddywedodd wrth ei Dad nefol, 'Boed i'r cwpan hwn fynd heibio. Onid nid fel y mynnaf fi ond fel y mynni di.'

Roedd yr Iesu'n berffaith ac fe gyflawnodd ewyllys Duw yn llwyr, eto ni chafodd fywyd rhwydd, a bu farw ar groes. Eto cadwodd yn driw i'w Dad. Dyma'r hyn a welwn yn Habacuc, mae'n caru Duw am ei fod yn Dduw llawn cariad gan ymddiried mewn ffydd yn ei sofraniaeth. Ei addewid yw Ei fod gyda ni bob amser beth bynnag da ni'n ei wynebu. Mae'r Ysbryd Glân gyda ni ac mae addewidion Duw yn sicr. (Math. 28:20)

Gallwn yn rhwydd aralleirio'r geiriau hyn yn Habacuc gan ddweud,

Pan mae salwch yn dod ac iechyd yn brin
Pan mae anwyliaid yn marw a'r galar yn chwyrn
Pan mae rhyfel yn agos a heddwch yn bell
Pan mae'r economi'n simsan a'r biliau'n ddrud
Pan mae bywyd yn galed am ysbryd yn glaf
Pan gollaf fy swydd a dim bwyd ar y bwrdd
Pan mae'r eglwysi yn wan a ffydd ar drai
Eto,
bydda i'n addoli'r ARGLWYDD
ac yn dathlu'r Duw sydd yn fy achub i!
Mae'r ARGLWYDD, fy meistr, yn rhoi nerth i mi,
ac yn gwneud fy nhraed mor saff â'r carw sy'n crwydro'r ucheldir garw.

Os wyt ti'n teimlo yn isel heddiw myfyria ar adnodau hyn a neges fawr yr Arglwydd i ti trwy Habacuc. Nid yw caledi bywyd yn arwydd o ddiffyg cariad a gofal Duw tuag atat ti.

Mae'n fy ngharu, rwyf yn gwybod
Mae ei eiddo byth wyf fi
Mae'n fy ngharu, diolch iddo
Prynodd fi ar Galfarî.

**Alun Tudur**

(allan o *sabothal.blog* 15 Tachwedd 2023)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# CARMEN HARRIES

Am enw ar ddyn! Ei enw llawn oedd Thomas Carmen Harries (1859–1933). O glywed yr enw gwibia'r meddwl at opera enwog Georges Bizet sy'n dwyn yr yn enw ac a berfformiwyd gyntaf ym Mharis ym 1875.

Brodor o ffarm Caermeiniganol ym Mynachlogddu oedd Carmen ac mae cyfrinach ei enw i'w weld yn enw'r ffarm (dim i wneud felly ag opera enwog Bizet). Roedd ganddo dri brawd, sef, James, Ben a Daniel. Ar aelwyd James y dechreuodd eglwys Fedyddiedig Seion Crymych. Symudodd Ben i Lyn-nedd lle agorodd siop gemydd (*jeweller*). Ac aros gartref a wnaeth Daniel gan weithio ar y ffarm deuluol.



Carmen Harries ifanc yn y canol

Cof da gennyf pan oeddwn yn blentyn y buasem ni'n ymweld â chartref fy mam-gu yng Nghrymych a gweld hen lun o'i hewythr Carmen yn ddyn ifanc gosgeiddig mewn siwt deidi gyda *top hat* ar ei ben a *brief case* yn ei law. Meddyliais mai meddyg oedd.

Symudai llawer o bobl cefn gwlad Cymru i gymoedd diwydiannol y deddwyrain yn ystod hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Felly y bu pethau yn hanes Carmen a'i frawd Ben.

Gweinidogaethodd Carmen yn eglwys Fedyddiedig Bethel Glyn-nedd rhwng 1893–1932. Roedd yn eglwys brysur fel sawl un arall y cyfnod. Clywais unwaith am fab Carmen yn chwibanu o'r oriel ar ei dad pan oedd hwnnw'n pregethu o'r pulpud ac yntau yn ei dro yn stopio'n sydyn i edrych yn syn arno.

Roedd dechrau'r ugeinfed ganrif yn gyfnod cyffrous yn hanes yr eglwys yng Nghymru. Cofnodwyd un cyfarfod ar 14 Chwefror 1905 dan y teitl 'Cyfarfod Hynod'



Carmen yn hen ddyn (eto yn y canol)




gan Gwilym Cadlan Jones mewn cylchgrawn o'r enw *Tarian y Gweithiwr*.

Yn ôl yr adroddiad gwahoddwyd Carmen a gweinidog Presbyteraidd o'r enw D. Hughes gan lowyr y nos i gynnal cwrdd gweddi dan ddaear ym mhwll glo'r British yn y Rhondda. Aeth eraill hefyd ac fe ganwyd 'ac offrymwyd gweddi ddwys ger genau y lofa, gan y Parch. T. C. Harries. A chredwn oni bai i Mr Harries ddweyd (sic.) fod penderfyniad i gynnal (sic.) y cyfarfod dan y ddaear, mai tuallan (sic.) y byddai gan fod y tan (sic.) eisoes wedi disgyn ar yr allor.'

Aeth y bobl felly mewn i'r pwll lle adroddodd glöwr o'r enw John James Evans Salm 103 yn deimladwy. Gweddiodd yn ddwys 'a disgynnodd (sic.) y tan (sic.) eto' gan gynhesu tua'r 70 oedd yn bresennol. 'Cymerwyd rhan gan y gweithwyr a chan rhai o'r boniddegesau. Tua diwedd y cwrdd, a barhaodd ryw 2 awr, cafwyd anerchiadau pwrpasol gan y ddau weinidog parchus oedd yn llawn o dan (sic.) cariad at y Gwaredwr.' Wedyn cyhoeddodd un o'r menywod yr emyn 'Duw mawr y rhyfeddodau maith' ac ar ôl ei ganu fe ymadawodd y cwmni 'pob un a'i lestr hyd yr ymylon.'

Hen barting dwbl hynod,
Anweddus fu yr iaith,
Rhegfeydd ofnadwy glywyd
Gan lu pan wrth eu gwaith;
Ond bellach fe'th gysegrwyd
A mawl a gweddi ddwys,
Ar Geidwad sy' ddigonol
I roddi arno'n pwys.

**Peter Davies**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*